WJEC / Eduqas Continuing Professional Development

Terms and Conditions

Making a reservation on a WJEC / EDUQAS Professional Development course

For chargeable courses, an invoice will be automatically generated before the event is to take place. Please ensure that you have the authority to make a reservation. Your Centre (where applicable) is responsible for making this payment.

Closing dates for reservations

Datblygiad Proffesiynol Parhaus CBAC

Telerau ac Amodau

Cadw lle ar gwrs Datblygiad Proffesiynol CBAC

- Dylech gadw eich lle ar ein holl gyrsiau ar-lein drwy wefan CBAC. Byddwch yn derbyn e-bost cydnabyddiaeth awtomatig pan fyddwch yn cofrestru.

- manylion DPP ar-lein, yn cael ei anfon atoch chi drwy e-bost ddim hwyrach na 10 diwrnod cyn dyddiad y [illegible]

- [illegible]

Dyddiadau cau ar gyfer cadw lle

Y dyddiad olaf i gadw lle ar-lein ar gyfer ein holl gyrsiau yw 2 diwrnod gwaith cyn y digwyddiad. Os hoffech gadw lle o fewn y cyfnod 2 diwrnod hwn, cysylltwch â dpp@cbac.co.uk yn uniongyrchol. Byddwn yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw geisiadau i gadw lle o fewn y cyfnod 2 diwrnod gwaith.

Diwygio eich manylion cadw lle

Pe byddai angen i chi ddiwygio eich archeb, er enghraifft newid manylion enw neu gyfeiriad, cysylltwch â dpp@cbac.co.uk. Rydym yn cadw'r hawl i wrthod mynediad ar ddiwrnod y cwrs i unrhyw un sy'n mynychu'r digwyddiad nad yw wedi cofrestru.

Polisi Canslo Cynrychiolwyr

Gallwch ganslo ar unrhyw adeg hyd at 5 diwrnod gwaith cyn digwyddiad yn ddi-dâl (lle bo'n berthnasol). Cysylltwch â dpp@cbac.co.uk os hoffech ganslo eich archeb ac osgoi gorfod talu ffi. Os nad yw person yn mynychu a heb ganslo o fewn 5 diwrnod briodol.

Canslo neu Ohirio'r Cwrs gan CBAC

Yn achlysurol, bydd angen i ni aildrefnu, newid lleoliad neu ganslo digwyddiad, ac rydym yn cadw'r hawl hwn. Os bydd hynny'n digwydd, byddwn yn gwneud pob ymdrech i roi cymaint o rybudd â phosibl i chi. Os byddwn yn canslo digwyddiad, byddwn yn ad-dalu ffioedd ar ffurf credyd.

Costau Cysylltiedig Eraill

Nid yw CBAC yn gyfrifol am unrhyw gostau cysylltiedig y mae'n rhaid i ganolfan neu gynrychiolydd eu talu yng nghyswllt y canlynol:

- Cadw lle ar/mynychu digwyddiad
- Canslo/gohirio digwyddiad
- Camddeall gwybodaeth CBAC/gwybodaeth wallus gan CBAC

Recordiadau Sain

Noder y bydd recordiad sain yn cael ei wneud ymhob digwyddiad yn unol â chanllawiau Cymwysterau Cymru/Ofqual.

Deunyddiau Cwrs

Bydd deunyddiau sy'n cael eu darparu yn ein digwyddiadau ar gael ar Wefan Ddiogel CBAC 24 awr ar ôl i'r digwyddiad olaf gael ei gynnal (fesul pwnc).

Parcio mewn lleoliadau DPP

- Nodwch nad ydym yn gallu gwarantu lle parcio mewn lleoliadau DPP yn cynnwys ar safleoedd CBAC.
- Cyfrifoldeb y mynychwr ydy talu am unrhyw gostau parcio.
- Ewch at wefan y lleoliad i wirio cyfleusterau parcio a trafnidiaeth cyhoeddus.